# Datblygwr Digidol: Deallusrwydd Artiffisial (AI)

## Cyflog: £35,403 – £38,745 y flwyddyn (Gradd 7)

## Math o gontract: Llawn amser (36.5 awr yr wythnos), Parhaol

**Yr her**

Yn CBAC, rydym yn cyfrannu at ein cymunedau addysg trwy ddarparu cymwysterau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol, er mwyn rhoi cyfle i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial llawn. Dyma gyfle gwych i ymuno a thîm arloesol.

**Y rôl**

Fel Datblygwr Digidol (AI) byddwch yn helpu i ddylunio, datblygu, profi a mireinio cynhyrchion a dulliau i'w defnyddio gan gydweithwyr mewnol a rhanddeiliaid allanol. Gan weithio fel rhan o'r tîm, byddwch yn cyfrannu at nifer o brojectau ar draws y sefydliad, gan ddod â syniadau ffres, tra'n gwella eich sgiliau mewn technolegau a methodolegau profedig. Byddwch yn gweithio ar y cyd â chydweithwyr ar draws y sefydliad, i sicrhau cyflawni projectau a chytundebau lefel gwasanaeth yn llwyddiannus.

**Amdanoch chi**

Rydym yn awyddus i glywed gan ddatblygwyr technegol cymwys gyda sgiliau cyfathrebu da, sy'n mwynhau gweithio gydag eraill a chysylltu â rhanddeiliaid ar bob lefel i helpu i gasglu a diffinio gofynion defnyddwyr. Byddant yn gyfforddus yn amldasgio ac yn rheoli eu llwyth gwaith eu hunain, gan weithio mewn amgylcheddau sy'n gofyn am sylw trylwyr i fanylion. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn mwynhau rhannu gwybodaeth gydag eraill ochr yn ochr â defnyddio dysgu hunangyfeiriedig i ddod o hyd i atebion ar gyfer problemau technegol cymhleth.

**Buddion**

Rydym yn cynnig amrywiaeth o fuddion rhagorol ac yn ymfalchïo mewn gweithio mewn lle cynhwysol a chefnogol. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys: 25 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (yn ogystal ag 16 o wyliau statudol / ychwanegol), cynllun pensiwn cystadleuol a nifer o bolisïau sy'n ystyriol o deuluoedd.

Rydym yn gweithredu ar sail model gweithio hybrid , sy'n galluogi'r ymgeisydd llwyddiannus i rannu ei amser rhwng gweithio yn swyddfeydd CBAC a gweithio gartref, gan ddibynnu ar anghenion busnes. Oherwydd hynny, gwahoddir ceisiadau gan unigolion o ledled y DU ond noder y bydd gofyn gweithio'n rheolaidd yn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd ar gyfer y rôl hon. Er y gellir trafod hyblygrwydd, mae'r tîm hwn ar hyn o bryd yn mynychu'r swyddfa, ar gyfartaledd, unwaith yr wythnos.

Os hoffech wybod mwy am y rôl hon, neu am weithio yn CBAC, mae croeso i chi gysylltu â'n tîm AD (AD@cbac.co.uk), a fydd yn fwy na pharod i helpu.

## Dyddiad cau: 09:00, dydd Mercher 05 Tachwedd 2025

245 Western Avenue, Cardiff CF5, 2YX
Tel 029 2026 5002 / 5189 / 5015
www.wjec.co.uk

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Datblygwr Digidol: Deallusrwydd Artiffisial (AI) |
| **Adran:** | Digidol a Thrawsnewid |
| **Isadran:** | Adnoddau Addysgol |
| **Yn atebol i:** | **Arweinydd Peiriannydd Datrysiadau Deallusrwydd Artiffisial (AI)** |
| **Gradd:** | 7 |
| **Lleoliad:** | Rhodfa'r Gorllewin |

### Prif ddiben y swydd::

Fel Datblygwr Digidol: Deallusrwydd Artiffisial (AI) byddwch yn helpu i ddylunio, datblygu, profi a gweithredu dulliau sy'n cael eu creu ar y cyd gan AI i'w defnyddio'n fewnol gan staff CBAC ac yn allanol gan ein cwsmeriaid. Gan weithio fel rhan o dîm arloesol, byddwch yn cyfrannu at nifer o brojectau ar draws y sefydliad, gan ddod â syniadau ffres, tra'n gwella eich sgiliau mewn technolegau a methodolegau profedig.

Bydd deiliad y swydd yn cydweithio â rhanddeiliaid i ddarparu argymhellion ar gyfer gwella yn ôl yr angen. Elfen allweddol o'r rôl yw cyfrannu at ddatblygu a gweithredu dulliau a nodweddion AI o dan arweiniad y Peiriannydd Deallusrwydd Artiffisial (AI), gan gefnogi arloesedd wrth greu a chyflenwi adnoddau.

### Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

**Deallusrwydd Artiffisial (AI)**

- Gweithio gyda'r Arweinydd Peiriannydd Datrysiadau AI i ddylunio, datblygu, profi a mireinio cynhyrchion, dulliau a chydrannau AI gan ddefnyddio methodolegau, dulliau, ieithoedd a fformatau priodol. Gall y rhain gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y rhai a restrir yn yr adran wybodaeth isod.
- Cynorthwyo i integreiddio nodweddion AI i gynhyrchion digidol presennol neu newydd, gan sicrhau defnyddioldeb, hygyrchedd ac aliniad ag amcanion addysgol.
- Dylunio a gweithredu cymwysiadau a systemau yn seiliedig ar ofynion busnes a TG, a dyluniadau pensaernïol a ddarperir gan uwch ddatblygwyr.
- Datrys problemau, dadfygio, a datrys unrhyw faterion neu wallau sy'n codi wrth ddatblygu neu ddefnyddio'r dulliau.
- Ymchwilio a dysgu technolegau, dulliau, fframweithiau ac arferion gorau AI newydd a rhannu mewnwelediadau gyda'r tîm datblygu ehangach.

**Cydweithio**

- Gweithio ar y cyd â'r Uwch Ddatblygwyr a'r tîm datblygu ehangach.
- Gweithio ar y cyd fel rhan o dîm i ddeall seiliau cod presennol a datblygu cod sydd wedi'i brofi, darllenadwy, wedi'i ddogfennu'n dda, y gellir ei raddio a'i adeiladu gyda golwg ar arferion gorau y diwydiant.
- Cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd sbrint a chyfrannu at greu a mireinio arteffactau sbrint yn unol ag egwyddorion Agile ac amcanion tîm.

- Sefydlu sianeli cyfathrebu effeithiol gyda defnyddwyr trwy gydol y broses ddylunio a gweithredu, gan drosglwyddo cysyniadau technegol cymhleth mewn ffordd glir a chryno.
- Mentora a hyfforddi datblygwyr iau a darparu adborth ac arweiniad.

**Rheoli Projectau**

- Gyda chefnogaeth yr Uwch Ddatblygwyr, gweithio ar ystod o brojectau digidol, gan sicrhau bod dyddiadau cau a chytundebau lefel gwasanaeth yn cael eu bodloni; blaenoriaethu llwyth gwaith yn annibynnol yn unol â gofynion busnes.
- Darparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd y project i rheolwr y prosiect, gan sicrhau bod terfynau amser y project yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni priodol a bod goddefiannau risg yn cael eu pennu.

**Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

- Gweithio gyda rhanddeiliaid eraill gan gynnwys Swyddogion Pwnc sy'n ymwneud â chreu adnoddau dysgu.

**Datblygiad Personol**

- Dilyn prosesau gwella a mireinio parhaus i gaffael sgiliau a dulliau ychwanegol, gan ymgymryd â chymwysterau diwydiant perthnasol (lle bo'n addas), fel ardystiad AWS, gan sicrhau bod datblygiad personol parhaus yn parhau i fod ar flaen yn flaenoriaeth yn y rôl.
- Cadw golwg ar safonau diwydiant diweddaraf i sicrhau bod CBAC yn aros ar y blaen ym maes addysg ddigidol.
- Bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf mewn datblygu traws-blatfform a sut y gall eu cymhwysiad gefnogi, datblygu a gwella arfer ystafell ddosbarth da.

**Arall**

- Deall a chydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau CBAC a nodir yn y Llawlyfr Staff; yn benodol, sicrhau eich bod yn deall eich rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â Diogelu, Diogelwch Gwybodaeth, GDPR, Cyfrinachedd, yr iaith Gymraeg ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi egwyddorion ac arfer cydraddoldeb cyfle fel y'i nodir ym Mholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CBAC, gan ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob project, polisi ac arfer.
- Bod yn aelod o dîm rhagweithiol, gan gyfrannu'n gadarnhaol at gyfarfodydd a phrojectau i gefnogi nodau ac amcanion CBAC.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad personol a phroffesiynol sy'n berthnasol i'r rôl.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill, yn ôl y galw, sy'n gymesur â gradd y swydd.

## Manyleb y Person

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Datblygwr Digidol: Deallusrwydd Artiffisial (AI) |
| **Adran:** | Digidol a Thrawsnewid – Adnoddau Addysgol |

Meini prawf hynod ddymunol yw'r sgiliau a'r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol. Meini prawf dymunol yw'r rhai a fyddai'n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

## Sgiliau a Galluoedd

**Hynod ddymunol**

- Diddordeb brwd mewn dysgu a gweithio gyda thechnolegau (gan gynnwys AI) a systemau, gydag angerdd i ychwanegu gwerth tra hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygiad personol.
- Sgiliau diagnostig a datrys problemau rhagorol, a'r gallu i chwilio am atebion creadigol ond ymarferol i broblemau cymhleth.
- Y gallu i weithio ar y cyd ac adeiladu perthnasoedd gwaith da gydag ystod o randdeiliaid sydd â gofynion cystadleuol.
- Sgiliau cyfathrebu gwych gyda'r gallu i gyfleu termau technegol cymhleth mewn modd clir a chryno i amrywiaeth eang o gynulleidfa.

**Dymunol**

- Y gallu i feddwl yn rhesymegol ac yn ddysgwr cyflym gyda'r gallu i ddeall cysyniadau/systemau newydd yn gyflym.
- Ymagwedd hyblyg at waith a'r gallu i reoli terfynau amser yn annibynnol ac ymateb i ofynion sy'n newid yn effeithiol.
- Y gallu i gymhwyso lefel uchel o gywirdeb a sylw i fanylion i'w gwaith.
- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg neu barodrwydd i ddysgu.

## Gwybodaeth

**Hynod ddymunol**

- Dealltwriaeth gref o fframweithiau a thechnolegau pen blaen gan gynnwys TypeScript, React.js, a CSS/ Port CSS, gyda gwybodaeth gyflenwol o ddatblygu pen cefn ac integreiddio cwmwl gan ddefnyddio gwasanaethau AWS (e.e., Node.js, Lambda, API Gateway, S3) i gefnogi datblygiad ac adleoliad rhaglenni stac cyflawn.
- Dealltwriaeth o safonau defnyddioldeb gwe, canllawiau hygyrchedd a datblygu traws-borwr.
- Gwybodaeth fanwl o ddylunio rhaglenni ar gyfer ffôn symudol, tabled a bwrdd gwaith gyda dealltwriaeth o'r nodweddion a'r datblygiad diweddaraf ar gyfer rhaglenni traws-blatfform, technegau optimeiddio adnoddau.

**Dymunol**

- Dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio technolegau AI i wella cynhyrchion ac effeithlonrwydd datblygu.
- Gwybodaeth a phrofiad o ddatblygiadau TGCh a'u goblygiadau i ddatblygu'r cwricwlwm.
- Ymwybyddiaeth o dueddiadau cyfredol mewn deallusrwydd artiffisial a dysgu peiriannau.

## Profiad

**Hynod ddymunol**

- Tystiolaeth o brofiad yn gweithio gydag un neu fwy o'r technolegau canlynol wrth greu cynhyrchion a gwasanaethau:
  - HTML5, TypeScript, React.js, CSS/Port CSS
  - Node.js, Lambda, API Gateway, S3
  - Wireframes a phrototeipiau
  - Systemau rheoli fersiwn dosbarthedig GIT
  - Agile scrum methodology
- Profiad o greu deunyddiau dysgu digidol.
- Profiad neu barodrwydd i ddysgu am ddatblygu a phrofi dulliau AI neu integreiddio nodweddion sy'n cael eu gyrru gan AI mewn cynhyrchion digidol.

**Dymunol**

- Adobe Suite (Illustrator/Photoshop/InDesign/Premier Pro
- Profiad o weithio gydag API neu systemau sy'n cael eu gyrru gan ddata sy'n defnyddio AI neu awtomeiddio.

## Hyfforddiant / Cymwysterau

**Hynod ddymunol**

- Addysgwyd i lefel Tystysgrif Genedlaethol Uwch (lefel-4) mewn pwnc perthnasol, neu brofiad proffesiynol cyfatebol

**Dymunol**

- Gradd berthnasol neu brofiad proffesiynol cyfatebol

## Arall

**Dymunol**

- Diddordeb amlwg mewn dylunio UX / UI

## **Telerau ac Amodau Gwasanaeth /** *Terms and Conditions of Service*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd /**<br>*Job Title:* | **Datblygwr Digidol: Deallusrwydd Artiffisial (AI)**<br>*Digital Developer: Artificial Intelligence (AI)* | | |
| **Cyflog** /<br>*Salary:* | **£35,403 - £38,745 y flwyddyn** (**pro-rata lle y bo'n gymwys /**<br>*£35,403 - £38,745 per annum (pro-rata where relevant)* | **Gradd /**<br>*Grade:* | 7 |
| **Gwyliau Blynyddol /**<br>*Annual Leave:* | **25 diwrnod (182.5 awr) y flwyddyn. Mae CBAC hefyd yn darparu 16 diwrnod (116.8 awr) i gyfrif am Wyliau Cyhoeddus a chyfnodau Cau CBAC (gwyliau ychwanegol). Mae'r lwfansau hyn yn cael eu haddasu ar gyfer staff sy'n gweithio'n rhan-amser neu batrymau gweithio cywasgedig.**<br>*25 days (182.5 hours) per annum. WJEC also provides 16 days (116.8 hours) to account for Bank Holidays and WJEC Closure periods (Additional leave). These allowances are adjusted for staff who work part-time or compressed working patterns.* | | |
| **Pensiwn /**<br>*Pension:* | **Mae gofynion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn berthnasol.**<br>*The provision of the Local Government Pension Scheme (LGPS) applies.* | | |

### **Math o Gytundeb /** *Contract Type:*

| **Oriau Gwaith /** *Working Hours:* | **Hyd y Contract** / *Length of Contract:* |
|---|---|
| ☒ **Llawn-amser** / *Full-time* | ☒ **Parhaol /** *Permanent* |
| ☐ **Rhan-amser** / *Part-time*<br>**Nifer yr oriau yr wythnos /** *No. of hrs per week:* 36.5 | ☐ **Tymor penodol /** *Fixed-term*<br>**Dyddiad gorffen arfaethedig** / *Planned end date:*<br>**Rheswm dros y cyfnod penodol** / *Reason for fixed-term:* |

**Arall /** *Other:*

**Cyfnodau prysur llwyth gwaith** / *Workload Peaks:* **Amh** *N/A*

### **Dull Ymgeisio /** *Method of Application:*

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at AD@cbac.co.uk erbyn **09:00, dydd Mercher 05 Tachwedd 2025.**

Completed forms should be sent by email to HR@wjec.co.uk by **09:00, Wednesday 05 November 2025.**